**Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd**
—
**Independent Remuneration Board of the Senedd**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Taliadau@senedd.cymru
bwrddtaliadau.cymru
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Remuneration@senedd.wales
remunerationboard.wales
0300 200 6565

David Rees AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Biliau Diwygio

26 Ionawr 2024

Argymhelliad 49: Adroddiad Cyfnod 1 ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

Annwyl David,

Diolch am y cyfle i gyfrannu at waith craffu'r Pwyllgor Biliau Diwygio ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) ac am eich llythyr dyddiedig 19 Ionawr 2024.

Fel y gwyddoch, mae Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd (y Bwrdd) yn monitro hynt y Bil yn agos, o ystyried y goblygiadau ar gyfer gwaith y Bwrdd o ran paratoi Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd. Felly, mae adroddiad cynhwysfawr y Pwyllgor i'w groesawu, ac mae'n trafod sawl maes o ddiddordeb a pherthnasedd y bydd y Bwrdd yn eu hystyried fel rhan o'i waith.

Mae adroddiad y Pwyllgor yn cynnwys argymhelliad i'r Bwrdd (argymhelliad 49), sef:

> "… dylai'r Bwrdd adolygu'r Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol ac ystyried unrhyw ddarpariaeth berthnasol arall y gellid ei darparu drwy ei Benderfyniad. Yn ystod y broses hon, dylai ystyried yn benodol i ba raddau y mae'r cymorth sydd ar gael yn cyfateb i'r lefel a'r mathau o gymorth sydd ar gael mewn mannau eraill, gan gynnwys Arian Short ac Arian Cranborne yn Senedd y DU. Dylid gweithredu canlyniadau'r gwaith hwn o ddechrau'r Seithfed Senedd yn 2026."

Mae'r Bwrdd yn croesawu'r argymhelliad hwn ac mae eisoes wedi dechrau ei adolygiad o'r Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol, sy'n un o'i bum adolygiad thematig a fydd yn llywio'r Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd. Gallaf gadarnhau felly mai bwriad y Bwrdd yw y bydd Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol diwygiedig ar waith cyn y Seithfed Senedd yn 2026.

Er mwyn llywio'r adolygiad hwn, mae'r Bwrdd yn cynnal gwaith ymchwil cymharol ar gyllid seneddol cymorth i bleidiau gwleidyddol ar draws deddfwrfeydd y DU a hefyd mewn sefydliadau tebyg eraill yn

rhyngwladol. Mae'r gwaith ymchwil hwn yn nodi elfennau tebyg a gwahanol ar draws yr ystod o fodelau sydd ar waith ar gyfer ariannu pleidiau gwleidyddol.

Mae'r Fonesig Jane Roberts, arweinydd y Bwrdd ar gyfer yr adolygiad hwn, eisoes wedi cynnal trafodaethau adeiladol a defnyddiol gydag uwch Staff ac Aelodau'r Grwpiau Gwleidyddol i drafod diben cymorth i bleidiau gwleidyddol, y nodweddion allweddol a chyfyngiadau cyfredol, ac i ofyn am eu barn ynghylch pa newidiadau y gallai fod eu hangen ar gyfer y Seithfed Senedd. Bydd y Bwrdd yn ystyried unrhyw ddadleuon Cyfnod 2 a Chyfnod 3 a gwelliannau perthnasol er mwyn llywio cam nesaf ei adolygiad o'r Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol ac mae'n bwriadu ymgysylltu ag Aelodau a staff yn ehangach i ofyn am eu barn ynghylch cymorth i bleidiau gwleidyddol yn ystod y misoedd nesaf er mwyn datblygu ei sylfaen dystiolaeth ymhellach.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn gwneud argymhelliad i'r Gweinidog (yn Argymhelliad 48), sef y dylai weithio gyda'r Bwrdd i adolygu'r adnoddau a'r cyllid cyhoeddus sydd ar gael i bleidiau gwleidyddol cofrestredig yng Nghymru at ddibenion datblygu polisi cyn y Seithfed Senedd. Mae'r Bwrdd yn nodi'r argymhelliad hwn ac yn edrych ymlaen at ystyried ymateb Llywodraeth Cymru, gan nodi y gallai fod cyd-ddibyniaeth ag adolygiad y Bwrdd ei hun.

Yn gywir,



**Dr Elizabeth Haywood,**
**Cadeirydd Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd**

*Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. | We welcome correspondence in Welsh or English.*